# Gweithdrefnau Gêm Gem Smash




### Cyflwyniad

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer GEM SMASH (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

### Manylion y Gêm

Enw'r Gêm: **"GEM SMASH"**
Rhif y Gêm: **"Gêm 1336"**
Pris Manwerthu: **£1 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 4.32 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 24,374,340 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

### Sut i chwarae ac ennill

Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys grid gyda naw motiff gem (bydd lliwiau a siapiau'r rhain yn amrywio) (y "Grid"). Mae wyth saeth ar hyd brig y Grid, ar yr ochr dde ac yng nghorneli uchaf y Grid, y mae pob un ohonynt yn dangos swm ariannol gwahanol ("Gwobr").

I chwarae'r Gêm, rhaid i chi grafu'r haen gyfan oddi ar y Grid i ddatgelu naw Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol. Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu tri Symbol Chwarae unfath gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol sy'n creu llinell lorweddol, fertigol neu groeslinol yn y grid. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Wobr a ddangosir yn y saeth gyfatebol ar frig llinell fertigol neu groeslinol gyflawn yn y Grid neu i'r dde o linell lorweddol gyflawn yn y Grid.

### Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae

| Symbolau Chwarae |  |  |
|---|---|---|
| Penawdau Chwarae | **-COIN** | **-CASH** |

Bydd naw Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen y grid yn yr Ardal Chwarae. Dim ond y Symbolau Chwarae a'r Penawdau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm.

### Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|
| £1 | 2,356,205 | 11 | +/- 5.00% |
| £2 | 2,139,453 | 12 | +/- 5.00% |
| £5 | 812,440 | 30 | +/- 5.00% |
| £10 | 270,858 | 90 | +/- 5.00% |
| £20 | 54,165 | 450 | +/- 5.00% |
| £40 | 9,058 | 2,691 | +/- 5.00% |
| £100 | 902 | 27,023 | +/- 5.00% |
| £10,000 | 6 | 4,062,390 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Gall y Gêm barhau i gael ei gwerthu ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei hawlio. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

## Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 61.55% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £15,001,711 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Allwyn ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Allwyn heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Allwyn argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

## Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn.

18+

**GP GM1336**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY